

Darlington DL98 1TL

## Gwneud cais am Drwydded Deledu Gonsesiwn ar gyfer Llety Gofal Preswyl (ARC).

Annwyl Syr/Madam,

Diolch am ofyn am Drwydded Deledu Gonsesiwn ARC.

### **Beth i'w wneud nawr.**

Rydym wedi cynnwys ffurflen gais. I'ch helpu i'w chwblhau, dylech ddarllen yr adran **Cyn dechrau** yn y tu blaen. Yna llenwch y ffurflen yn ofalus fel y gallwn brosesu eich cais cyn gyflymed â phosib.

Os nad ydych yn siwr o hyd a yw eich preswylwyr yn gymwys, neu ym mha categori y mae eich llety yn perthyn, edrychwch ar ein canllaw dros y dudalen neu ewch i [tvlicensing.co.uk/reducedfee](http://tvlicensing.co.uk/reducedfee)

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, llofnodwch hi a'i hanfon yn ôl atom yn yr amlen barod. Rhwygwch y llythyr yma a'i gadw er gwybodaeth. Fe wnawn ni gysylltu'n fuan os bydd gennym unrhyw gwestiynau. Fel arall, os bydd eich cais yn llwyddiannus, fe wnawn ni gysylltu â chi ymhen tua mis i roi gwybod y gost a sut i dalu. Peidiwch ag anfon taliad nawr.

Yr eiddoch yn gywir,



Alison Roberts  
Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Fe gewch fwy o wybodaeth yn [tvlicensing.co.uk/reducedfee](http://tvlicensing.co.uk/reducedfee)



## I gael gwybod a ydych yn gymwys.

Mae Trwydded Deledu Gonsesiwn ar gyfer Llety Gofal Preswyl (ARC) yn costio £7.50 fesul stafell, fflat neu fnglo ar gyfer preswylwyr sy'n 74 neu danodd. Gall preswylwyr sydd dros 75 wneud cais am Drwydded Deledu am ddim.

Fe gewch fwy o wybodaeth yn [tvlicensing.co.uk/reducedfee](http://tvlicensing.co.uk/reducedfee), neu gallwch weld a yw eich preswylwyr a llety yn gymwys gan ddefnyddio'r wybodaeth isod. Gwnewch gais drwy lenwi'r ffurflen amgaeedig.

### 1. Ynghylch eich preswylwyr.

I fod yn gymwys i gael Trwydded Deledu Gonsesiwn ARC, rhaid i fwyafrif\* eich preswylwyr fod:

#### Wedi ymddeol

Yn 60 mlwydd oed neu drosodd a heb fod yn gweithio mewn cyflogaeth am dâl am dros 15 awr yr wythnos NEU

#### Yn anabl

Mae person yn anabl os oes nam sylweddol ar ei olwg, clyw neu leferydd, neu os oes ganddo anhwylder meddyliol, os yw'n anabl yn gorfforol ac yn sylweddol oherwydd salwch, neu os oes unrhyw nam yn bresennol o'i enedigaeth neu fel arall.

\*Ar gyfer llety gwarchod, rhaid i'r rhan fwyaf o'r preswylwyr fod un ai wedi ymddeol neu'n anabl.

### 2. Ynghylch eich llety.

I fod yn gymwys i gael Trwydded Deledu Gonsesiwn ARC, rhaid i'ch llety fod yn un o'r rhain o leiaf:

**Cartref gofal** neu **ysbyty**, wedi'i gofrestru gyda'r corff perthnasol yn lleol neu'n genedlaethol.

**Elusendy**, wedi'i sefydlu cyn 1 Tachwedd 1949 (Cymru a Lloegr yn unig).

**Ysgol annibynnol** (wedi'i chadarnhau mewn llythyr gan Bennaeth yr ysgol) nad yw wedi'i chymeradwyo am y tro gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 347 Deddf Addysg 1996.

Neu **lety gwarchod** neu **lety â chymorth**:

- Wedi'i letya mewn adeilad a gafodd ei godi neu ei addasu gyda'r bwriad o'i anheddu gan breswylwyr sydd wedi ymddeol a thros 60, neu'n anabl.
- Yn ffurfio rhan o grŵp o bedwar anheddle o leiaf o fewn terfyn cyffredin a neilltuedig.
- Wedi'i ddarparu neu ei reoli gan awdurdod lleol, adran/gweinidog y llywodraeth neu gymdeithas dai.
- Gyda pherson sy'n gofalu am anghenion y preswylwyr sydd un ai'n byw ar y safle neu'n cael ei gyflogi i weithio ar y safle am o leiaf 30 awr yr wythnos, heb gynnwys oriau ar alwad.



Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, mae'r wybodaeth yma ar gael mewn print bras trwy ffonio 0300 790 6076.

Os ydych yn fyddar, yn drwm eich clyw neu â nam ar eich lleferydd, gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ffôn testun trwy ffonio 0300 790 6053.



Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg.

## A oes arnoch angen mwy o drwyddedau?

Dyw trwydded ARC ddim yn trwyddedu setiau teledu cymunol na llety staff. Bydd angen i unrhyw un yn y stafelloedd yma fod â Thrwydded Deledu os ydyn nhw'n:

- a) gwylio neu'n recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar deledu neu'n fyw ar wasanaeth teledu ar lein, neu'n
- b) lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar alw, gan gynnwys teledu dal i fyny, ar BBC iPlayer.

Gallai hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys teledu, cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn symudol, tabled, consol gemau, bocs digidol neu beiriant recordio DVD/VHS.

Cewch wybod mwy yn [tvlicensing.co.uk](http://tvlicensing.co.uk)